Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

NAFWC 2014 (Papur 3)
Adolygiad o gyflawniadau yn y Trydydd Cynulliad

Dyddiad: 14 Mawrth 2011
Amser: 17:00
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 4B
Enw a rhif cyswllt yr awdur: Claire Clancy, estyniad 8233

Adolygiad o gyflawniadau yn y Trydydd Cynulliad: adroddiad etifeddiaeth Comisiwn y Cynulliad

Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn

1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Mae adroddiad etifeddiaeth drafft wedi'i baratoi i gadw cofnod o brofiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y Trydydd Cynulliad er mwyn llywio gwaith y Comisiwn sy'n ei olynu. Drafft cychwynnol, y bydd angen rhagor o waith, golygu a gwirio arno, yw'r papur sydd ynghlwm. Er enghraifft, byddwn am sicrhau ei fod yn ymdrin â'r Trydydd Cynulliad yn ei gyfanrwydd, byddwn am ychwanegu mwy o fanylion mewn rhai mannau, ac am ystyried sylwadau'r Comisiynwyr.

2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir Comisiwn y Cynulliad i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft, ac i ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- **a yw'r Comisiynwyr yn fodlon â strwythur a ffocws yr adroddiad?**
- **a oes unrhyw ddeunydd ychwanegol y mae'r Comisiynwyr yn dymuno ei gynnwys?**

- a oes unrhyw argymhellion pellach yr hoffai'r Comisiynwyr eu cofnodi yn yr adroddiad etifeddiaeth?
- a yw'r Comisiynwyr yn dymuno rhoi sylwadau ar ddrafft terfynol yr adroddiad cyn ei gyhoeddi?
- a yw'r Comisiynwyr yn cytuno ar y dyddiad cyhoeddi arfaethedig, sef yr wythnos sy'n dechrau 9 Mai 2011?

3.0 Trafodaeth

3.1 Mae'r adroddiad etifeddiaeth drafft yn cynnwys:

- adran gyflwyno sy'n nodi rôl y Comisiwn;
- dull gweithredu'r Comisiwn o ran strategaeth a threfniadaeth;
- cerrig milltir ac uchafbwyntiau'r Trydydd Cynulliad; a
- pum nod strategol y Comisiwn, gan gynnwys argymhellion i'r Comisiwn olynol ar bob un o'r nodau.

3.2 Caiff yr adroddiad etifeddiaeth ei gyhoeddi. Gan fod Comisiynwyr yn aros yn eu swyddi nes penodi Aelodau Cynulliad eraill i gymryd eu lle, mae dyddiad arfaethedig cyhoeddi'r adroddiad yn ystod yr wythnos ar ôl yr etholiad.